# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 13.06.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W.Tudor Owen (Cadeirydd); Dylan Edwards; Peter Read

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran cwmni Coral Racing Ltd.:** Mr Stephen McMenemy; Mr Kevin Hadley
**Yn cynrychioli'r Ymgeisydd:** Mr John Morse, cyfreithiwr

**Gwrthwynebwyr:** Mr Gerald Summers, landlord yr eiddo

## 1. CAIS AM DDATGANIAD AMODOL DAN Y DDEDDF GAMBLO – 10 STRYD Y LLYN, CAERNARFON

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu gais am ddatganiad amodol dan y Ddeddf Gamblo 2005 ar gyfer 10 Stryd Llyn, Caernarfon. Datganiad amodol yw'r cais gan Coral Racing Ltd ac y mae trafodaethau ymlaen rhwng cwmni Coral a'r landlord i geisio sicrhau meddiant. Adroddwyd, pe byddai'r les yn dod yn eiddo i Coral yna bydd angen cyflwyno cais llawn am drwydded ar gyfer yr eiddo.

Cafodd cynrychiolydd yr ymgeisydd, yn ôl y drefn arferol, gyfle i gefnogi sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac awgrymodd nad oes gan Mr Summers, y landlord, hawl i wrthwynebu'r cais oherwydd nad yw'n defnyddio'r eiddo ar gyfer unrhyw fusnes, ac felly nid yw yn "interested party" yn yr ystyr cyfreithiol.

Gofynnwyd i'r ymgeisydd, y gwrthwynebydd a'r RheolwrTrwyddedu adael yr ystafell tra'r oedd aelodau'r Is-bwyllgor yn ystyried y mater, ac yn dilyn cyngor cyfreithiol, penderfynwyd bod gwrthwynebiad cyfreithiwr Coral yn ddilys, ac felly ni ddylid ystyried gwrthwynebiad Mr Summers i'r cais.

**PENDERFYNWYD derbyn y pwyntiau cyfreithiol a gyflwynwyd gan gyfreithiwr cwmni Coral**

Penderfynwyd felly mynd ymlaen â'r cais yn ddi-wrthwynebiad, ond caniatawyd i Mr Summers aros yn yr ystafell heb gymryd rhan yn y cyfarfod.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i) Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais.

ii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd

iii) Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd grynhoi ei achos.

Wrth drafod y cais, cyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Mae cwmni Coral yn gwmni sefydlog gydag asedau sylweddol

- Mae'r Comisiwn Gamblo wedi cymeradwyo polisi'r cwmni ac yn ymweld â chanolfannau'r cwmni'n rheolaidd
- Ni chyflwynwyd gwrthwynebiad gan yr heddlu i'r cais
- Mae'r cwmni'n bwriadu cadw oriau agor safonol, sef 08.30 – 22.00 Dydd Llun hyd ddydd Sadwrn a 11.00 – 18.00 ar Ddydd Sul
- Ystyriwyd y llythyr o wrthwynebiad gan Trethowan's, cyfreithwyr ar ran Corbett Bookmakers Ltd

**PENDERFYNWYD caniatau datganiad amodol i gwmni Coral ar gyfer 10 Stryd y Llyn, Caernarfon yn unol â'r amodau canlynol:-**

**(i) yr amodau safonol mandadol**
**(ii) oriau agor fel a ganlyn: Dydd Llun hyd Ddydd Sadwrn: 08.30 hyd at 22.00 Dydd Sul: 11.00 hyd at 18.00**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yr anfonir llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.20am